

## PENNOD 6: Y DYN CYFIAWN

Salm 15

*Arglwydd, pwy a gaiff aros yn dy babell? Pwy a gaiff fyw ar dy fynydd sanctaidd? Yr hwn sy'n byw yn gywir, yn gwneud cyfiawnder, ac yn dweud y gwir yn ei galon.....*

Rwyn teimlo'n flin dros Joseff y Saer. Mae'n ymddangos i mi iddo gael amser cas gan hanes a thraddodiad. Sylweddolais hynny flynyddoedd lawer yn ôl ar fy ymweliad cyntaf ag eglwys Gatholig. Cyfeiriodd yr offeiriad at ddelw o'r Forwyn Fair gan sôn am ei phwysigrwydd; trodd wedyn at Joseff a dweud, "Nid wyf yn siŵr pam mae ef yma. Efallai, i gydbwyso." Ai dyna'r stori i gyd? Onid yw'n wir i ddweud os cynrychiola Mair bopeth sy'n dda mewn bod yn fenyw ac yn fam, mae'n wir i ddweud mai Joseff yw cynrychiolydd popeth sy'n dda mewn dyn a thad?

Dywedir gan Luc a Mathew bod Joseff a Mair wedi eu dyweddio. Golyga hyn llawer mwy na dyweddio'r Gorllewin. Yma golyga dyweddio gytundeb cyfreithiol rhwng y teuluoedd yn ogystal â'r pâr eu hunain. Mae'r deuddyn yng nghadw ar gyfer ei gilydd. Pan ddaw'r ferch yn wraig rhaid iddi symud i dŷ ei gŵr, yn aml i gartref teulu estynedig, yn ufudd i'w mam-yng-nghyfraith yn ogystal a'r gŵr, ac yna y cyflawnir y briodas.

Mathew sy'n dweud wrthym i Joseff ddarganfod bod Mair yn feichiog. Rhaid bod eraill yn gwybod hefyd, gan gynnwys ei theulu. Os yw'n gyfrinach, ni bydd felly'n hir iawn. Bydd y clebran maleisus yn dechrau, yn arbennig gan i'r ferch ymddangos yn wastad fel "merch dda." Sut glywodd Joseff? Ai Mair ddywedodd wrtho? – neu ei theulu neu a glywodd sisial cas y cymdogion? Byddai stori Mair am angel yn gwbl anhebygol, hyd yn oed i ddyn mor dduwiol â Joseff.

Mae cyflwr ei ddyweddi a'r clebran sy'n dilyn yn pentyrru gwarth ar ben Saer Nasareth. Beth sydd i'w wneud? Cytundeb cyfreithiol oedd dyweddïad ac ond dwy ffordd i'w roi heibio oedd gan gyfraith Iddewig. Gall fynd gerbron llys i symud y warth oddi ar ei ysgwyddau ef a'i osod ar ei theulu a rhaid i'r teulu dalu'r costau cyfreithiol. Wrth gwrs, yn yr hen ddyddiau 'da', cyn dyfodiad y Rhufeiniaid, byddai dynion parchus wedi ei llabyddio, yn ôl gorchymyn y Ddeddf. Geiriau yw eu hunig arf erbyn hyn ond pethau creulon hefyd fydd y geiriau cas a deflir ati. Y dewis arall iddo yw gosod y dyweddïad o'r neilltu yn breifat ym mhresenoldeb dau dyst. Nid oes unrhyw hawl gan y teulu i fynegi barn a chaiff y ferch ei gwrthod mewn gwarth llwyr. Yn ôl Luc "dyn cyfiawn" neu "dyn da" yw Joseff. Caiff ei ddisgrifio gan gyfieithiadau Saesneg cyfoes fel "dyn o egwyddor, dyn anrhydeddus, dyn sy'n gwneud yr hyn sy'n iawn yn wastad." Hynny yw, popeth a ddisgwylir mewn Pharisead da, sy'n cadw'r Ddeddf ond, yn wahanol i lawer o'i gyfoeswyr, roedd yna elfen o drugaredd yn ei dduwioldeb. Ni wna unrhyw esgus drosti ond ni chondemnia hi, chwaith, wrth iddo ddileu y cyfamod. Digon hawdd yw dychmygu'r ing y cynnwrf a'r aflonnyddwch mewnol wrth iddo baratoi i wneud hynny.

Wedyn, mae Joseff hefyd yn cael ymweliad gan angel, y tro hwn yn ystod y nos. Diddorol iawn yw'r hyn a ddywedir. Ni cheir gan yr angel unrhyw air o gydymdeimlad, diddanwch na dealltwriaeth o'i sefyllfa, y pethau a ddisgwylir o'u ffydd gan lawer o gredinwyr. Yn lle hynny, rhoddir cadarnhad a gorchymyn i Joseff. Mae Joseff i gymryd Mair yn wraig iddo gan mai trwy'r Ysbryd Glân y cenhedlwyd ei phlentyn. Mae ei phlentyn i'w godi fel mab iddo. O dan y Ddeddf Iddewig roedd mabwysiad yn rhoi'r un statws i blentyn â pherthynas biolegol.

Pa arwyddocâd sydd i neges yr angel? Dywedir wrth Joseff fod Mair yn eiddo iddo ac eto nad yw. Wrth gwrs, mae hyn yn wir am bob perthynas dynol, ffaith a anghofir yn hawdd neu ei gosod o'r neilltu. Nid oes neb dynol sy'n berchen ar yr un ohonom. Tu fewn i bob person ceir yr hyn sy'n eiddo i'r person hwnnw yn unig, yr hyn a rennir a'r hyn sy'n eiddo i Dduw. Galwad Duw sydd â blaenoriaeth arni. Peth caled yw hyn iddi hi a pheth caled i Joseff a pheth caled i ni oll i'w gofio. Pa deimladau bynnag sydd gan Joseff, gwasanaethu Duw sy'n cael blaenoriaeth ganddo. Offeryn yw Joseff yn llaw Duw yn y gwaith o achub y byd. Mae Joseff hefyd i ddeall mai eiddo Duw yw'r plentyn a rhodd Duw iddo, i'w fabwysiadu fel ei blentyn ei hun. Ar ei ysgwyddau ef y gosodir y baich o fod yn dad i blentyn Mair. Rhaid iddo ddioddef y codi bys a'r sibrwd cas a'r chwerthin y tu ôl i'w gefn. Ond, rhaid iddo dderbyn y plentyn sydd wedi achosi cymaint o boen iddo cyn iddo gael ei eni. Awgrym Karl Barth yw mai rhan oddefol sydd gan Joseff ond goddefoldeb gweithredol yw hwn, yn debyg i eiddo Mair.

Â Joseff ymlaen gyda'r briodas, Pan ddaw'r amser iddo fynd i Fethlehem aiff Mair gydag ef er mai ond dynion sy'n cael eu galw i gofrestru. Beth sydd tu ôl i'r ffolineb o fynd â gwraig feichiog yn agos at ei hamser ar daith o bron can milltir yn y gaeaf a'r perygl o dywydd drwg (cafwyd eira trwm yn Jerwsalem ym mis Rhagfyr 2013) ar gefn asyn neu yn cerdded. Oni fyddai'n well ei gadael gyda'i theulu neu ei dylwyth ef? Ac nid gwibdaith deuluol mo hon ond taith a orfodwyd gan Rufain a nid daith hapus mohoni. Pam mynd â hi, felly? Ai ofni ei gadael sy'n ei boeni? - ofn ei gadael ar ei phen ei hun yn Nasareth? Sut fyddai'r cymdogion yn ymateb iddi – yr un rhai a geisiodd nes ymlaen daflu ei mab dros y clogwyn. Beth am ei dylwyth ef, wedi eu tramgwyddo gan ei chyflwr neu ei thylwyth hi dan faich eu gwarth? Beth fyddai'r rhai hyn yn gwneud yn ei absenoldeb? Pa esboniad bynnag sydd, ni chaiff ei gadael ar ôl mewn awyrgylch mor gas. Pendefyna fynd â hi gydag ef i Fethlehem as wrth iddo wneud hynny mae'n datgan eu bod mewn perthynas arbennig, nid yn unig oherwydd y dyweddïad ond am eu bod gyda'u gilydd am fod Duw wedi eu galw.

## Y Noson Honno: Myfyrdodau trwy'r adfent gan Thomas Ivor Rees

---

Y mae gan ufudd-dod cariadus Joseff le arbennig yn hanes geni a phlentyndod Iesu. Daw Iesu'n fab iddo trwy fabwysiad swyddogol neu answyddogol ond mabwysiad sy'n gweithio dwy ffordd sydd yma. Derbynia Joseff gyfrifoldeb ac awdurdod bod yn dad: Joseff sy'n enwi'r plentyn – dyna uchelfraint y tad! Rhaid i Iesu ei barchu ac ufuddhau iddo, fel unrhyw blentyn arall. Serch hynny, dywedwyd wrtho o flaen llaw pa enw i'w roi i'r bachgen. Mewn ffordd, mae'r plentyn yn mabwysiadu ei dad yn y stori hon. Trwy ei berthynas â Mair a Joseff fe ddaw'r plentyn yn un ohonom ni.

Cyfrifoldeb Joseff yw gwarchod pethau sanctaidd neu, yn hytrach, y bywyd sanctaidd hwn, trwy yr hwn y gollyngir yn rhydd fywyd Duw yn y byd. Ymddengys rhan Joseff fel un llai nag eiddo Mair, ac yn fyrrach o amser: yn ôl yr hen garol Saesneg "Hen ŵr oedd Joseff", gan fynegi hen draddodiad. Serch hynny mae'n gwbl angenrheidiol i hanes Ymgnawdoliad y Crist. Enw yr Eglwys Uniongred ar Fair, Mam Iesu, yw *Theocotos* neu Cludwraig Duw. Hi sy'n cario Iesu yn ei chroth am naw mis ac wedyn yn ei breichiau. Yn y diwedd mae'n dal ei gorff marw yn yr un breichiau. Onid oes i Joseff ran debyg, er yn llai, efallai? Onid swydd Joseff yw bod yn Alluogwr-Duw? Y pâr hwn yw'r aelodau cyntaf o'r Ddynoliaeth Newydd, y cyntaf ohonom ni. Ond eiddo Duw yw'r cam cyntaf, ef sy'n achub y blaen bob amser. Duw sy'n rhyddhau bywyd yn y byd trwy groth wag a bedd gwag. Un gweithred yw'r Nadolig, y Groes a'r Atgyfodiad. Yma y creir perthynas newydd rhwng Duw a'r ddynoliaeth a genir gobaith i'r byd. Ond rhaid wrth ymateb ddynol i bob weithred ddwyfol trwy ymddiried, derbyn ac ufuddhau cariadlon. Felly y mae i Joseff a Mair. Rhaid iddynt ddysgu ystyr marw i'r hunan trwy bod yn rhieni i Iesu, fel sydd rhaid i bob rhiant da wrth ofalu am blentyn. Llwydda Mair a Joseff i fod yn ffyddlon yn eu gwaith am iddynt yn gyntaf weld a chlywed Duw – yr Emmanwel sydd yma'n awr.

*Arglwydd Dduw, gelwaist Joseff y Saer i gymryd ei ran yn hanes gwaredigaeth y byd, gan roi iddo'r ddoniau anghenrheidiol i godi Iesu ar y ffordd y bu rhaid iddo fynd arni. Llanwa ni hefyd â gras, gostyngeiddrwydd a chyfiawnder er mwyn i ni chwarae ein rhan ni yn nyfodiad Crist i'n byd yn ein cenhedlaeth ni.*

### Cwestiynau i feddwl drostynt neu i'w trafod

Beth yw rhan Joseff yn yr hanes? Beth sydd ganddo i'w ddysgu i ni?

"Tro Joseff yw dod i ganol y llwyfan ac, yn yr adnodau hyn, fe gofiwn iddo, trwy allu Duw, droi distryw potensial i ras, gan alluogi bywyd i ffynnu." (Archddiacon Andrew Jones). Pa gyfleoedd a roddir i ni fel Cristnogion ac fel eglwysi i dynnu'r rhai anghenus o adfeilion bywyd a chynnig gras iddynt?

A gawn ni ein galw hefyd i fod yn fath ar gludwyr Crist a galluogwyr Crist, er mwyn i Iesu gael ei eni i'r byd yn ein cenhedlaeth ac ymhob sefyllfa?